**Eitem:** 10
**Teitl:** Adroddiad diweddaru cyllid hyd at ddiwedd Awst 2025

| | |
|---|---|
| **Gweithredu / Action required** | Er gwybodaeth |
| **Amseru / Timing** | Arferol |
| **Argymhelliad / Recommendation** | Bod y Bwrdd yn nodi'r diweddariad cyllid ar gyfer y 5 mis hyd at 31 Awst 2025 a'r rhagolwg blwyddyn lawn ar gyfer 2025/26. |
| **Risg / Risk** | Risg i enw da ac ariannol |
| **Cyllid / Finance** | Dim yn berthnasol |
| **Amcan Cynllun Corfforaethol / Corporate Plan Objective** | I dyfu a gwella fel sefydliad |
| **Ecwiti, Amrywiaeth a Chynhwysiant / Equity, Diversity & Inclusion** | Dylai'r fformat adrodd ariannol fod yn hygyrch i bawb er mwyn caniatáu gwell dealltwriaeth o adroddiadau ariannol Llais. Mae ystyriaeth wedi'i rhoi i hyn. |
| **Cyfathrebu / Communications** | Ticiwch un o'r blychau canlynol os bydd y gweithgaredd hwn yn cael effaith ar:<br>**Mewnol:** ein pobl ☒<br>Allanol: ein cwsmeriaid/partneriaid/rhanddeiliaid ☒<br>Allanol: enw da ein sefydliad ☒ |
| **Cymeradwyaeth / Approval/Clearance** | Joanne Bolton, Cyfarwyddwr Strategol Gweithrediadau a Gwasanaethau Corfforaethol |
| **Trafodaethau/Penderfyniadau Blaenorol / Previous Discussions/Decisions** | Adrodd yn rheolaidd yng nghyfarfodydd y Bwrdd. |
| **Awdur/Cyflwynwr / Author/Presenting** | Joanne Bolton, Cyfarwyddwr Strategol Gweithrediadau a Gwasanaethau Corfforaethol |
| **Dyddiad / Date** | 24 Medi 2025 |

## Cefndir / Background

Mae'r papur hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa ariannol Llais am y 5 mis hyd at 31 Awst 2025 ynghyd â'r wybodaeth ddiweddaraf am gyllideb a rhagolygon 2025/26 gan gynnwys ymgysylltu â deiliaid cyllideb.

**Dyraniad cyllideb Llywodraeth Cymru 2025/26**

Ym mis Mawrth 2025, cymeradwyodd y Bwrdd Gynllun Ariannol 2025/26 Llais. Rhoddodd y cynllun hwn drosolwg cynhwysfawr o'r incwm a'r gwariant a ragwelwyd, y risgiau ariannol allweddol, a'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni ein Cynllun Blynyddol. Darperir trosolwg o'r gyllideb yn Atodiad A, sy'n amlinellu'r dyraniadau ar y lefel ranbarthol ac ar draws gweithgareddau Cymru Gyfan.

Roedd y cynllun yn seiliedig ar gyllideb 2025/26 a gymeradwywyd gan Senedd Cymru ym mis Chwefror 2025. Cadarnhaodd swyddogion Llywodraeth Cymru i'r Tîm Gweithredol y gallai'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Senedd wasanaethu fel dyraniad adnoddau cychwynnol Llais ar gyfer 2025/26.

Ers hynny, mae trafodaethau wedi parhau ynghylch y dyraniad cyllideb derfynol.

Mae Senedd Cymru wedi pleidleisio ar y gyllideb atodol gyntaf, lle mae ein tîm partneriaeth yn cadarnhau y bydd Llais yn cael £96,000 o gyllid ychwanegol i gydnabod effaith y cynnydd yng nghostau yswiriant gwladol cyflogwyr ar gyfer 2025/26.

Yn ogystal, cadarnhawyd yn anffurfiol y bydd yr ail gyllideb atodol yn cael ei chynyddu £36,000 i gydnabod yr amrywiad rhwng dyfarniad cyflog cost byw Agenda ar gyfer Newid 2025/26 a'r rhagdybiaethau modelu a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru.

Unwaith y bydd y materion hyn wedi'u cwblhau, rydym yn disgwyl i Lywodraeth Cymru anfon llythyr Cynnig Grant terfynol atom.

Nes i ni dderbyn y llythyr Cynnig Grant yn cadarnhau'r arian ychwanegol disgwyliedig o £142,000, ni fydd y swm hwn yn cael ei adlewyrchu yn y gyllideb ar y llyfr cyfrifon ac nid yw wedi'i gynnwys yn y

gronfa wrth gefn sydd ar gael a nodir isod.

## Manylion / Detail

**Diweddariad Cyllid 2025/26**

Mae'r Tîm Cyllid wedi gweithio gyda deiliaid cyllidebau i weithredu fframwaith adrodd mewnol newydd, gyda'r nod o gryfhau rheolaeth gyllidebol ar draws y sefydliad. Mae'n ofynnol i ddeiliaid cyllidebau raddoli eu cyllidebau yn unol â chynlluniau gweithredol, a fydd yn hwyluso nodi amrywiadau yn gynharach ac yn cefnogi gwneud penderfyniadau amserol.

Lle'r oedd cynlluniau cyflawni manwl ar gael, cafodd cyllidebau eu graddoli i gyd-fynd â'r cyflawni, fodd bynnag oherwydd nifer o swyddi gwag ar draws y sefydliad, nid oedd yn bosibl cwblhau'r ymarfer graddoli cyllidebol yn llawn. Gyda llawer o rolau bellach wedi'u llenwi, mae cyfarfodydd wedi'u trefnu gyda deiliaid cyllideb ym mis Hydref 2025 i adolygu cyfrifon hanner blwyddyn ac alinio cyllidebau â'r ddarpariaeth wirioneddol. Bydd hyn yn cefnogi ymarfer rhagweld ehangach.

Mae'r Cyfarwyddwr Cyllid yn parhau i gefnogi deiliaid cyllidebau i ymgorffori dysgu, gwella rheolaeth ariannol barhaus, a llywio cynllunio ar gyfer 2026/27.

**Cynllunio ariannol tymor canolig**

Er mwyn sicrhau cynaliadwyedd ariannol hirdymor, rhaid i unrhyw gynigion ar gyfer swyddi parhaol newydd neu ymrwymiadau cytundebol hirdymor gael eu gwrthbwyso gan arbedion rheolaidd. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn osgoi'r risg o or-ymrwymo adnoddau y tu hwnt i'r gyllideb sydd ar gael.

Bydd cynllun ariannol tymor canolig ar gyfer 2026/27 a 2027/28 yn cael ei ddatblygu erbyn diwedd mis Hydref 2025. Bydd yn ymgorffori rhagamcanion cost y flwyddyn gyfredol i gefnogi gwneud penderfyniadau strategol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynghori Cyrff Hyd Fraich (ALBs) i fodelu

ar ddyfarnu 2.2% ar gyfer dyfarniad cyflog cost byw 2026/27.

Fodd bynnag, gan fod dyfarniadau cyflog blaenorol wedi rhagori ar y canllawiau cychwynnol, dyfarniad Agenda ar gyfer Newid o 5.5% yn erbyn 3.7% a gynghorwyd yn 2024/25 a dyfarniad Agenda ar gyfer Newid o 3.6% yn erbyn 3.0% a gynghorwyd yn 2025/26, bydd ein cynllun cyllideb ar gyfer 2026/2027 yn modelu cynnydd o 3.0% ar gyfer 2026/27 i liniaru risg, yn enwedig yng ngoleuni chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr, a oedd yn 3.8% ym mis Gorffennaf 2025.

Bydd ein cais am gyllideb 2026/27, yn seiliedig ar y modelu hwn, yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru yn ystod trydydd chwarter y flwyddyn ariannol hon.

**Dull cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026/27**

Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau ei bod yn bwriadu cyhoeddi cyllidebau un flwyddyn ym mis Hydref 2025, a fydd yn adlewyrchu cynnydd mewn cyllidebau adrannol yn ôl chwyddiant. Darperir dyddiadau allweddol isod:

- 14 Hydref 2025 - Cyllideb ddrafft amlinellol (dyraniadau lefel uchel ar gyfer pob Ysgrifennydd Cabinet).
- 3 Tachwedd 2025 - Cyhoeddwyd cyllideb ddrafft fanwl (llinellau gwariant).
- 20 Ionawr 2026 - Cyhoeddir y gyllideb derfynol.
- 27 Ionawr 2026 – Dadl a phleidlais ar y gyllideb.

Mae’r cyhoeddiad cynharach hwn i’w groesawu gan y bydd yn cefnogi ein cynllunio a’n gwneud penderfyniadau ar gyfer 2026/27 yn well.

**Cyllideb wrth gefn**

Ar 31 Awst 2025, roeddem yn cyflogi 106 o staff.  Gan ystyried gweithio rhan-amser, roedd hyn yn cyfateb i 98.84 o swyddi cyfwerth ag amser llawn (FTE) o'i gymharu â sefydliad llawn o 106.44.

Ar 31 Awst 2025, roedd y gyllideb wrth gefn yn £88,000, heb gynnwys y £142,000 ychwanegol nad yw wedi'i gadarnhau'n ffurfiol eto.

Mae nifer o amrywiadau rhwng rhagolwg diwedd blwyddyn Awst 2025

a'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Bwrdd (Atodiad A), sy'n bennaf oherwydd swyddi gwag sydd wedi codi o ganlyniad i'r ymarfer Rhyddhau Cynnar Gwirfoddol a chwblhau rhaglenni gwaith manwl yn dilyn cyfarfod y Bwrdd ym mis Mawrth 2025.

Bydd y Tîm Gweithredol yn parhau i adolygu'r gyllideb wrth gefn yn rheolaidd i sicrhau ei bod yn cael ei defnyddio tuag at raglen waith a dargedwyd ac effeithiol. Fel rhan o'r broses rheoli cyllideb, mae'r Tîm Gweithredol hefyd yn adolygu ac yn cymeradwyo unrhyw drosglwyddiadau o'r gyllideb wrth gefn i feysydd eraill.

**Symudiadau swyddfa 2025/26**

Ym mis Mai 2025, cymeradwyodd y Bwrdd symud swyddfa ar gyfer tîm rhanbarthol Castell-nedd Port Talbot o Ysbyty Cimla i Ganolfan Arloesi Bae Baglan (BBIC), yn amodol ar adborth staff. Roedd yr adborth gan y staff yn gadarnhaol, ac felly yn amodol ar gytundeb ar y brydles derfynol, mae'r symud wedi'i drefnu i ddigwydd ar 22 Medi 2025.

Mae trosglwyddiad o £47,500 o'r gyllideb wrth gefn wedi'i gymeradwyo i gefnogi'r symudiad hwn, gan ganiatáu ar gyfer adleoli seilwaith TG, dodrefn newydd a ffioedd cyfreithwyr.

**Cyllideb cyfalaf**

Mae cais am gyllid cyfalaf wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru am £30,000 i gefnogi gwaith gwella lesddaliadau yng Nghanolfan Arloesi Bae Baglan. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys rhannu gofod swyddfa a gosodiadau trydanol cysylltiedig.

Cawsom wybod gan gydweithwyr yn Llywodraeth Cymru nad oes cyllideb gyfalaf ar gael ar hyn o bryd i gefnogi'r gwaith gwella lesddaliadau. Fodd bynnag, os bydd cyllideb gyfalaf ar gael yn ddiweddarach yn y flwyddyn ariannol, efallai y bydd modd i ni gael mynediad at y cronfeydd hyn. Bydd dyfynbrisiau contractwyr yn cael eu sicrhau cyn cael cymeradwyaeth yn y cam hwyr.

Gofynnwyd, os na ellir darparu'r cyllid hwn yn 2025/26, y dylid ystyried darparu'r cyllid yn ystod rownd gyllidebu 2026/27 Llywodraeth Cymru.

**Incwm arall**

Mae Llais wedi sicrhau cyllid ychwanegol o £173,000 dros dair blynedd gan Tenovus i ariannu rôl eiriolwr cwynion canser pwrpasol. Mae'r bartneriaeth hon yn gwella gallu Llais i gefnogi unigolion sydd wedi'u heffeithio gan ganser ledled Cymru.

Hyd yn hyn, mae £46,000 wedi'i ofyn amdani a'i dderbyn gan Tenovus i ariannu'r swydd hon.

Mae'r gwariant hwn wedi'i gynnwys yn y rhagolwg diweddaraf ar gyfer 2025/26, fel y'i hadlewyrchir yn Atodiad A a B.

**Dadansoddiad o amrywiadau cyllidebol**

Mae Atodiad B yn cyflwyno gwariant manwl hyd at ddiwedd Awst 2025 o'i gymharu â'r amcangyfrif cyllideb fesul cam. Mae tanwariant cyfredol o £183,000 wedi'i nodi, gyda'r amrywiadau allweddol wedi'u hamlinellu isod:

- **Costau staff uniongyrchol**

Mae amrywiadau eraill sy'n gysylltiedig â staff wedi codi oherwydd sawl mater megis:

- Amrywiadau rhwng dyddiadau cyllidebol a gwirioneddol ar gyfer dechreuwyr newydd ac ymadawyr, cynllun wrth gefn

mamolaeth i gefnogi costau posibl sy'n gysylltiedig â mamolaeth yn cael eu gor-broffilio yn Ch1 a chyfnodau cyflog llai ar gyfer absenoldeb salwch staff.

Mae 12 swydd wedi'u llenwi drwy asiantaeth ar hyn o bryd. Mae hyn yn creu amrywiad o'r amcangyfrifon gwreiddiol oherwydd sawl ffactor, gan gynnwys:

- Caiff costau asiantaeth eu rhannu'n gyfartal dros gyfnod recriwtio gweithwyr, tra bod gweithwyr asiantaeth yn cael eu talu am oriau gwirioneddol a weithiwyd o dan drefniadau gweithio hyblyg Llais.
- Gwyliau blynyddol dros yr haf.

Yn ystod mis Medi, bydd cyllidebau staffio yn cael eu hadolygu a'u hailgyfnodi gydag unrhyw amrywiadau'n cael eu rhyddhau i'r gronfa wrth gefn, gydag adolygiad pellach yn cael ei gynnal ym mis Hydref ar ôl cyfarfodydd hanner blwyddyn gyda deiliaid cyllideb.

- **Costau staff eraill**

Caiff y gyllideb hysbysebu recriwtio ei chyflwyno'n raddol o ddechrau'r flwyddyn, fodd bynnag, mae oedi yn yr amserlenni recriwtio yn golygu y bydd y gyllideb yn cael ei hailbroffilio. Er bod £9,000 o'r gyllideb flynyddol yn weddill, ni fydd yn cael ei ryddhau i'r gronfa wrth gefn oherwydd natur anrhagweladwy trosiant a recriwtio staff.

Mae gwariant dysgu £9,000 o dan y gyllideb. Mae dull blaenoriaethol ar waith ar gyfer dysgu sefydliadol, sy'n cynnwys ceisiadau unigol, anghenion dysgu a nodwyd o weithgarwch adolygu mewnol ac allanol, a dysgu i gefnogi cyflwyno gweithgareddau/ffyrdd newydd o weithio. Bydd cyfnodau'r gyllideb yn cael eu hadolygu i sicrhau ei bod yn fwy cydnaws â'n strategaeth a'n cynlluniau dysgu a datblygu ar lefel sefydliadol sy'n datblygu.

Mae costau teithio a chynhaliaeth hefyd wedi'u tanwario o £15,000 ar draws timau rhanbarthol a chenedlaethol. I ddechrau, rhannwyd y cyllidebau hyn yn gyfartal dros y flwyddyn, ond mae trafodaethau

diweddar gyda deiliaid cyllidebau wedi arwain at gytundeb i ailbroffilio'r llinellau hyn i adlewyrchu'r gweithgaredd disgwyliedig hyd at ddiwedd y flwyddyn. Bydd hyn yn helpu i sicrhau y gellir ailddyrannu unrhyw danwariant a'i ddefnyddio'n effeithiol.

Wrth i Llais gasglu data ariannol mwy cadarn, bydd yn bosibl proffilio'r cyllidebau hyn yn fwy cywir yn y blynyddoedd i ddod.

- **Digidol, data a thechnoleg**

Mae'r gyllideb ddigidol, data a thechnoleg yn cynnwys darpariaeth ar gyfer trwyddedau meddalwedd, cynnal gwefannau, cymorth rhwydwaith, cydnerthedd seiber a chynllun wrth gefn ar gyfer cymorth TG ad hoc a phryniannau ymylol.

Mae'r tanwariant presennol yn bennaf oherwydd:

- Diwrnodau cymorth wrth gefn nas defnyddiwyd o fewn cyllideb cymorth y rhwydwaith, gan arwain at amrywiad gwariant o £10,000 yn erbyn y gyllideb.
- Llai o drwyddedau meddalwedd nag a ddisgwyliwyd wedi'u prynu hyd yma ac ar ôl eu derbyn nid yw anfonebau wedi'u cynyddu i adlewyrchu chwyddiant o'i gymharu â chostau'r flwyddyn flaenorol, mae hyn wedi arwain at amrywiad o £11,000.

Gallai adolygiad parhaus o seilwaith digidol Llais arwain at fuddsoddiad pellach yn ystod y flwyddyn. Felly, bydd y gyllideb hon yn parhau yn ei lle a chaiff ei hadolygu'n rheolaidd yn unol â Strategaeth a Chynllun Digidol y sefydliad sy'n datblygu.

- **Ffioedd proffesiynol**

Mae'r gyllideb hon yn cynnwys costau angenrheidiol i sicrhau cydymffurfiaeth gyfreithiol a statudol, gan gynnwys gwasanaethau archwilio, cyfreithiol a chyfieithu.

Mae'r tanwariant hyd yn hyn yn bennaf oherwydd bod cyllidebau cyfieithu a chyfreithiol yn cael eu dosbarthu'n gyfartal dros y flwyddyn. Bydd y llinellau hyn yn cael eu hadolygu ddiwedd mis Medi 2025 i asesu eu digonolrwydd. Bydd unrhyw danwariant a ragwelir ar y pwynt hwnnw yn cael ei ailddyrannu i gronfa wrth gefn, lle bo'n briodol.

- **Rhaglenni penodol**

Ym mis Medi 2025, adolygodd ac ail-gofnododd y tîm Strategaeth, Cyfathrebu a Mewnwelediadau ei gyllideb i gyd-fynd yn well â gwariant gwirioneddol a chynlluniedig.

Bydd yr adolygiad hwn yn cefnogi nodi unrhyw amrywiadau yn y dyfodol yn amserol ac yn sicrhau bod adnoddau'n cael eu cyfeirio at gyflawni'r rhaglen waith y cytunwyd arni.

**Rheoli arian parod**

Ym mis Ebrill 2025, cawsom £382,000 ychwanegol mewn Cymorth Grant i dalu am daliadau a wnaed i gyn-weithwyr o dan Gynllun Rhyddhau Cynnar Gwirfoddol 2024/25 (VERS). Roedd y cyllid hwn yn ychwanegol at Grant Cymorth 2025/26.

Yn dilyn trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru, rydym bellach yn derbyn cyllid arian parod yn chwarterol yn hytrach nag yn fisol. Gofynnir am y 3ydd gyfran o gyllid ar gyfer 2025/26 ym mis Hydref 2025.

**Crynodeb:**

Mae Llais yn parhau mewn sefyllfa ariannol sefydlog wrth iddo agosáu at ddiwedd Chwarter 2 2025/26. Mae ein sefydliad yn parhau i weithredu o fewn ei gyllideb gymeradwy, gyda chefnogaeth rheoli cyllideb weithredol ac ymgysylltiad cryf â deiliaid cyllidebau. Mae arbedion sy'n gysylltiedig â staffio wedi galluogi ailddyrannu adnoddau i feysydd blaenoriaeth, ac mae gweithredu fframwaith adrodd ariannol newydd yn gwella goruchwyliaeth a rheolaeth.

Er bod amrywiadau wedi codi oherwydd newidiadau yng nghyfnodau'r gyllideb, swyddi gwag dros dro, a chostau untro, mae'r rhain yn cael eu monitro a'u rheoli'n agos.

Mae'r gyllideb wrth gefn presennol o £87,845, ochr yn ochr â chyllid pellach disgwyliedig o £142,000, yn darparu byffer i gefnogi Llais i reoli risgiau gweithredol anhysbys ac annisgwyl. Mae'r Tîm Gweithredol yn ystyried yn weithredol y ffordd orau o ddefnyddio'r gronfa wrth gefn i sicrhau ei bod yn cefnogi cyflawni gwaith blaenoriaeth ac nad yw'n cael ei thanddefnyddio.

Er nad yw'r Llythyr Cynnig Grant ar gyfer 2025/26 wedi'i gyhoeddi eto,

deellir bod hyn yn oedi gweithdrefnol, ac mae Llais yn parhau i fod yn hyderus yn ei allu i gyflawni'r holl ymrwymiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn. Mae cyllid arian parod yn parhau i gael ei ddarparu bob chwarter, gan sicrhau parhad gweithredol.

Mae datblygu cynllun ariannol tymor canolig a rhagdybiaethau modelu doeth ar gyfer dyfarniadau cyflog yn y dyfodol yn dangos ymhellach ffocws y sefydliad ar gynaliadwyedd hirdymor.

**Argymhellion**

Gofynnir i'r Bwrdd nodi cynnwys yr adroddiad hwn.